CIWB

**Tasg 4**

# Tri diwrnod

Gwyliwch y clip yma a gwrandewch yn ofalus:

https://www.youtube.com/watch?v=JQZgq_lrwQ4

1. Beth ydych chi'n gallu clywed?
2. Beth sy'n gwneud y "gerddoriaeth"?
3. Beth ydych chi'n feddwl o'r "gerddoriaeth"?

Mae'n bosib defnyddio pethau o gwmpas y tŷ i wneud cerddoriaeth.

Edrychwch ar y clip yma a gwrandewch yn ofalus ar y gerddoriaeth.

https://www.youtube.com/watch?v=mMpK4L2xkZw

4. Sut mae'r person yn y clip yn gwneud cerddoriaeth?

   Beth mae'n defnyddio? Gwnewch restr.

   Dyma rai berfau i'ch helpu chi:

| | |
|---|---|
| taro | to strike |
| cau | to close |
| agor | to open |
| tynnu | to pull |
| sgrwnsio | to scrunch |

Cymharwch eich rhestr chi gyda rhestr eich partner chi.

| Geirfa | |
|---|---|
| pethau | things |
| o gwmpas y tŷ | around the house |
| cymharu | to compare |

5. Mewn grŵp, beth am ddefnyddio pethau o gwmpas y tŷ neu bethau yn yr ystafell i wneud cerddoriaeth?

Rhaid penderfynu:

- beth rydych chi'n mynd i ddefnyddio
- sut rydych chi'n mynd i ddefnyddio'r pethau yma – pa ferfau?

Trafodwch mewn grŵp.
Ydych chi'n cofio sut i drafod mewn grŵp?
Ysgrifennwch y patrymau pwysig yn y bocs isod ac yna edrychwch ar y sgrin **Trafod mewn grŵp** i weld oes mwy o syniadau yno.

**Trafod mewn grŵp**

Cynnig syniadau
(Offer suggestions)

Cytuno*
(Agree)

Anghytuno*
(Disagree)

* Cofiwch roi rheswm – achos ...

6. Mewn grŵp, cyfansoddwch ddarn o gerddoriaeth sy'n defnyddio pethau o gwmpas y tŷ neu bethau yn yr ystafell.

Eglurwch sut i berfformio'r darn, e.e.

**Rhaid defnyddio ...**
**Rhaid agor a chau'r zip.**

**Rhaid taro'r (bocs) (saith) gwaith.**
**Rhaid tapio'r fforc ar y tun.**

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| cyfansoddi | to compose | ... gwaith | ... times |
| sy'n defnyddio | that uses | egluro | to explain |

7. Rhaid i bob grŵp berfformio'r darn.

8. Yna, rhaid i grwpiau eraill roi marc allan o 10 am y darn. Rhaid rhoi rheswm.

9. Beth am ysgrifennu mewn grid fel yr un yma?

| Grŵp | Marc allan o 10 | Barn |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

**Trafod mewn grŵp**

| | |
|---|---|
| **Cynnig syniadau (Offer suggestions)** | **Beth am ...?<br>Dw i eisiau ...<br>Hoffwn i ...<br>Dylen ni ...** |
| **Cytuno* (Agree)** | **Syniad da achos ...<br>Dw i'n cytuno achos ...** |
| **Anghytuno* (Disagree)** | **Na, dw i ddim yn meddwl, achos ...<br>Dw i ddim yn cytuno achos ...<br>Dw i'n anghytuno achos ...** |